

1 Gwybodaeth Gyffredinol

Rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

Dan gyfraith diogelu data, ni yw'r "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch, ac yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn storio'r wybodaeth bersonol honno ac yn ei defnyddio.

Fel rheolydd data, mae yna ofyniad cyfreithiol i ni roi gwybodaeth benodol i unigolion yr ydym yn casglu eu gwybodaeth bersonol, yn cael gafael ar eu gwybodaeth bersonol, yn ei storio ac yn ei defnyddio. Ceir y wybodaeth honno yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill y byddwn yn eu rhoi i chi ar adegau penodol), er mwyn i chi wybod sut a pham yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, a beth yw'ch hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i bob cleient a darpar-gleient i Wasanaethau Digwyddiadau Prifysgol Abertawe ('Gwasanaethau Digwyddiadau'), a phob cynrychiolydd sy'n mynd i gynadleddau neu ddigwyddiadau ym Mhrifysgol Abertawe.

Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae'r gyfraith hon yn datgan bod yn rhaid i ni wneud y canlynol mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch:

1. Ei defnyddio mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw.
2. Ei chasglu at ddibenion dilys, yr ydym wedi eu hesbonio'n glir i chi, yn unig, a pheidio â'i defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
3. Rhaid ei bod yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi dweud wrthyh amdanant ac nid at unrhyw ddibenion eraill.
4. Sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac wedi'i diweddarau.
5. Ei chadw cyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig, at y dibenion yr ydym wedi dweud wrthyh amdanant.
6. Ei chadw'n ddiogel.

2 Pa wybodaeth bersonol y byddwn yn ei dal amdanoch?

Fel cleient neu ddarpar-gleient, byddwch yn rhoi gwybodaeth bersonol benodol i ni yn ymwneud â chi, ar gychwyn ein perthynas â chi. Caiff hyn ei chadarnhau ac efallai y byddwch yn rhoi mwy o wybodaeth pan fyddwch yn llofnodi contract i gynnal digwyddiad gyda ni. Mae yna rai categorïau o ddarpar-gleientiaid y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol ganddynt sydd ar gael o ffynonellau cyhoeddus. Os ydych wedi dod i gynhadledd neu ddigwyddiad, efallai y bydd y sawl sy'n trefnu'r gynhadledd yr ydych yn dod iddi (ein cleient) yn rhoi i ni wybodaeth bersonol amdanoch.

Mae cyfraith diogelu data yn diogelu gwybodaeth bersonol sef, yn ei hanfod, unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn trwyddi. Mae yna fath o wybodaeth bersonol sy'n cael gwarchodaeth

ychwanegol oherwydd ei natur sensitif neu breifat, ac weithiau cyfeirir at yr wybodaeth hon fel 'gwybodaeth bersonol mewn categori arbennig'. Mae'n golygu gwybodaeth bersonol unigolyn sy'n ymwneud â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth o undeb llafur), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometrigrig (lle y mae'n cael ei defnyddio i adnabod unigolyn) a gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn. Ni fyddwn yn casglu unrhyw 'wybodaeth bersonol mewn categori arbennig' amdanoch; er y gallai gwybodaeth o'r fath gael ei chymryd yn ganiataol ar adegau – er enghraifft, petaech yn dod i gynhadledd wleidyddol yn y Brifysgol, yna gellid defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch (eich enw a'r ffaith eich bod yn dod i'r gynhadledd) i gymryd eich barn wleidyddol yn ganiataol.

Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu gan gleientiaid a darpar-gleientiaid sy'n dod i gyswllt â ni yn cynnwys:

- eich enw, y teitl sydd orau gennych, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- teitl eich swydd neu'ch safle o fewn sefydliad
- y digwyddiadau a fyddai'n apelio atoch
- y manylion cyswllt a fyddai orau gennych
- gwybodaeth am eich ymgysylltiad â'n negeseuon e-bost a chyfathrebu arall gennym
- unrhyw wybodaeth arall y byddwch yn ei rhoi i ni mewn perthynas ag ymholiad ynghylch digwyddiad

Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu gan y rheiny sy'n dod i gynadleddau, neu gan drefnwyr cynadleddau am y rheiny sy'n dod i gynadleddau, yn cynnwys:

- eich enw, y teitl sydd orau gennych, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- teitl eich swydd neu'ch safle o fewn sefydliad
- eich rhyw
- gwneuthuriad, model a rhif cofrestru eich cerbyd
- eich alergeddau neu ofynion dietegol arbennig
- gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw ofynion arbennig sydd gennych er mwyn i chi fedru dod i'r gynhadledd
- eich cenedligrwydd a'ch statws mewnffudo
- manylion eich cerdyn credyd/debyd a/neu gyfrif banc
- unrhyw wybodaeth arall y byddwch yn ei rhoi i ni mewn perthynas â'ch digwyddiad

Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys:

- eich enw, y teitl sydd orau gennych, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- teitl eich swydd neu'ch safle o fewn sefydliad
- y digwyddiadau fyddai'n apelio atoch

3 At ba ddiben y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw'r sail gyfreithiol i ni wneud hynny?

Defnyddiwn yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch at sawl diben gwahanol, ac maent wedi eu rhestru isod. Dan gyfraith diogelu data, mae arnom angen sail gyfreithiol ddilys dros ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol, ac rydym hefyd yn nodi isod y sylfeini cyfreithiol y byddwn yn dibynnu arnynt.

3.1 Defnyddiwn yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- i gysylltu â chi am ddigwyddiad yr ydych yn ei gynnal gyda ni
- i sicrhau bod pob elfen o ddigwyddiad, gan gynnwys yr arlwyio a'r llety, yn cael eu darparu yn unol â'ch gofynion
- i ddyrannu llety preswyl priodol ar eich cyfer

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd ei bod yn angenrheidiol i gyflawni'r contract sydd rhyngom.

3.2 Defnyddiwn yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch, os yw'n ymwneud â'ch rôl gyda chwmni neu sefydliad, am y rhesymau canlynol:

- i'ch annog i drefnu digwyddiad neu i drefnu digwyddiad arall eto gyda ni
- i ddadansoddi eich hanes personol o drefnu digwyddiadau gyda ni, a hanes eich sefydliad, gyda'r nod o annog digwyddiadau pellach neu fwy o ddigwyddiadau
- i roi gwybodaeth farchnata i chi am ein cynnyrch a'n gwasanaethau
- i ddadansoddi'ch ymgysylltiad â'n negeseuon e-bost a chyfathrebu arall

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd ei bod er ein diddordeb cyfreithlon. Dyma'n diddordebau cyfreithlon penodol:

- gweithredu model busnes cynaliadwy
- gwella'n henw da trwy ddarparu profiad rhagorol i gwsmeriaid

3.3 Defnyddiwn yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch, os ydych wedi rhoi caniatâd penodol i ni ac os nad yw'n ymwneud â data a brosesir dan 3.2, am y rhesymau canlynol:

- i roi gwybodaeth farchnata i chi am ein cynnyrch a'n gwasanaethau
- i olrhain sut yr ydych yn defnyddio'n gwefan ac yn rhyngweithio â hi

Yn yr achos hwn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd eich bod wedi rhoi caniatâd i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn y ffordd hon.

3.4 Defnyddiwn yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch am y rhesymau canlynol:

- i gydymffurfio â chyfraith mewnfudo ac i ddangos ein bod yn cydymffurfio â hi

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd ei bod yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.

4 Pa wybodaeth bersonol mewn categori arbennig y byddwn yn ei dal amdanoch?

Nid ydym yn dal unrhyw Wybodaeth Bersonol mewn Categori Arbennig amdanoch.

5 Gwybodaeth gyffredinol bellach am ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol am y rhesymau yr ydym yn ei chasglu yn unig, onid ydym o'r farn resymol fod arnom angen ei defnyddio am reswm arall, ac mae'r rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os oes arnom angen defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig, byddwn yn dweud wrthy'ch ac yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein caniatáu i wneud hynny.

Sylwer y gallem brosesu'ch gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi neu heb eich caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, lle y bo hynny'n angenrheidiol neu wedi ei ganiatáu'n gyfreithiol.

Byddwn yn gofyn am beth o'r data personol am ei bod yn ofyniad cyfreithiol neu gytundebol arnom i gaffael a defnyddio'r wybodaeth, neu am ei bod yn angenrheidiol i ni gaffael yr wybodaeth er mwyn i ni fedru ffurfio contract gyda chi.

Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomataidd nac yn proffilio mewn perthynas â chi.

6 Gyda phwy y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth?

Caiff eich data personol ei dal gan adran Gwasanaethau Digwyddiadau. Caiff eich data personol ei rannu'n fewnol ag unigolion eraill a/neu adrannau eraill lle y bo hyn yn rhesymol angenrheidiol at y dibenion prosesu a nodir yn adran 3 uchod. Er enghraifft, bydd angen rhannu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol â'r adran Arlwyo er mwyn bodloni gofynion dietegol penodol; neu â'r adran Cyllid er mwyn anfon anfoneb atoch.

O bryd i'w gilydd, bydd arnom angen rhannu'ch gwybodaeth gyda phobl a sefydliadau o'r tu allan. Byddwn yn gwneud hynny dim ond pan fydd gennym sail gyfreithiol neu gyfreithlon dros wneud hynny, a hynny yn unol â'n rhwymedigaethau dan gyfreithiau diogelu data.

Gellir datgelu eich gwybodaeth i:

- **UPP Ltd** mewn perthynas â darparu llety preswyl yng Nghampws y Bae
- **Darparwyr allanol** cynnyrch sy'n gysylltiedig â digwyddiad (gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: arlwyyr, darparwyr llety, cwmnïau cludiant, darparwyr

arddangosfeydd a deunydd clyweledol, difyrwyr a darparwyr cynnwys) os yw hyn yn angenrheidiol, yn ein barn resymol, er mwyn cyflawni ein contract gyda chi yn llwyddiannus

- **Darparwyr gwasanaethau e-bost** gan gynnwys Mailchimp ond heb fod yn gyfyngedig i'r darparwr hwn
- **Darparwyr gwasanaethau marchnata digidol** mewn perthynas â'ch rhyngweithiadau gyda'n gwefan
- **Yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw un arall o awdurdodau'r llywodraeth, os yw'n gofyn i ni wneud hynny (ond dim ond os yw'n gyfreithlon i ni wneud hynny).
- **Lle mae yna rwymedigaeth gyfreithiol i ni wneud hynny**, e.e. i gydymffurfio â gorchymyn llys

8 Trosglwyddo'ch Gwybodaeth yn Rhyngwladol

Delir mwyafrif eich data personol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Delir rhywfaint o ddata personol ar weinyddion yn Unol Daleithiau America; lle y bo hynny'n wir, mae'r sefydliadau'n rhan o fframwaith o'r enw EU-US Privacy Shield Framework ac mae'r wybodaeth yn cael ei dal o fewn amgylchedd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

9 Am Ba Hyd y Byddwn yn Cadw'ch Gwybodaeth?

I sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau diogelu data cyfreithiol a'n rhwymedigaethau preifatrwydd, rydym yn cadw'ch gwybodaeth cyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig, am y rhesymau dros ei chaffael yn y lle cyntaf. Dyma ein hamserlenni cadw penodol:

- Yn dilyn ymholiad i'r Gwasanaethau Digwyddiadau; hyd nes diwedd y flwyddyn galendr ar ôl y dyddiad sydd flwyddyn gron ers i chi ymgysylltu â ni am y tro cyntaf
- Yn dilyn digwyddiad a gynhaliwyd gyda'r Gwasanaethau Digwyddiadau; hyd nes diwedd y flwyddyn galendr ar ôl y dyddiad sydd bum mlynedd ers i chi ymgysylltu â ni am y tro cyntaf

Rydym yn cadw eich data personol am y cyfnodau hyn oherwydd, yn ein profiad ni, dyma'r cyfnodau o amser yn dilyn yr ymgysylltiad cychwynnol lle y gallai cleient neu gyflenwr ddychwelyd atom gyda'r disgwyliad rhesymol y byddwn wedi cadw'r data angenrheidiol i weithio ar eu hymholiad neu i ateb cwestiwn rhesymol am eu digwyddiad.

Er mwyn pennu'r cyfnod priodol ar gyfer cadw data personol, rydym yn ystyried swmp, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg bosibl o niwed o ddatgelu neu ddefnyddio eich data mewn ffordd anawdurdodedig, y dibenion dros brosesu eich data personol a p'un ai y gallwn gyflawni'r dibenion hyn trwy ffyrdd eraill ai peidio, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

10 Hawliau unigol

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau gwahanol i unigolion, mewn perthynas â'u data. Caiff y rhain eu rhestru isod ac maent yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol:

- **Yr hawl i ofyn am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (y cyfeirir ato fel arfer fel "cais am fynediad gan wrthrych y data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Yr hawl i ofyn am gywiro'r** wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro.
- **Yr hawl i ofyn i ni ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da gennym dros barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol lle yr ydych wedi defnyddio'ch hawl i wrthwynebu i ni ei phrosesu (gweler isod).
- **Gofyn i ni beidio â phrosesu** eich gwybodaeth bersonol lle yr ydym yn dibynnu ar ddiddordeb cyfreithlon (neu ddiddordebau cyfreithlon rhywun arall) ac mae yna ryw beth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi eisiau gofyn i ni beidio â'i phrosesu ar y sail hon. Mae gennych yr hawl hefyd i wrthwynebu lle'r ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Gofyn am gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ymatal rhag prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Gofyn am gael symud eich data.** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych yr hawl i ofyn i ni roi copi electronig o'ch gwybodaeth bersonol i chi, naill ai at eich defnydd personol chi neu fel eich bod yn gallu ei rhannu â sefydliad arall. Lle y mae'r hawl hwn yn berthnasol, gallwch ofyn i ni drosglwyddo'ch data personol yn uniongyrchol at rywun arall, lle y bo hyn yn ymarferol.

Os ydych yn dymuno adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol, gofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol at rywun arall, mae croeso i chi gysylltu â:

Ms Melissa Ferreira
Rheolwr Gwasanaethau Digwyddiadau
Ystafell y Castell, 2^{il} Lawr Tŷ Fulton
Prifysgol Abertawe (Campws Parc Singleton)
SA2 8PP
E-bost: events@swansea.ac.uk

Nid oes angen talu ffi fel arfer

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (nac i ymarfer unrhyw un arall o'ch hawliau). Serch hynny, efallai y byddwn yn codi ffi resymol arnoch os yw'n amlwg nad oes sail i'ch cais am fynediad, neu os yw'n eithafol. Neu, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais dan amgylchiadau o'r fath.

Beth fydd arnom ei angen gennych, o bosibl

Efallai y bydd arnom angen gofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau bod hawl gennych i gael mynediad (neu i ddefnyddio unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Dyma fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un heb yr hawl i'w derbyn.

11 Y gallu i dynnu eich caniatâd yn ôl

Lle y mae'ch data personol yn cael ei brosesu ar sail eich caniatâd neu eich caniatâd penodol, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd i brosesu'ch gwybodaeth bersonol yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn trwy e-bostio Rheolwr Gwasanaethau Digwyddiadau yn events@swansea.ac.uk. Os ydych yn tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb prosesu eich data personol ar sail eich caniatâd cyn i chi'n hysbysu eich bod yn tynnu eich caniatâd yn ôl.

12 Cywirdeb

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion personol yn newid yn ystod eich cyflogaeth/ymgysylltiad, dylech gysylltu ag aelod o'r Adran Adnoddau Dynol i ddweud wrtho, ac i roi'r wybodaeth gywir newydd.

13 Diweddaru'r Polisi Preifatrwydd hwn

Rydym yn adolygu sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn newid y math o wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, sut yr ydym yn ei storio, gyda phwy yr ydym yn ei rhannu a sut yr ydym yn gweithredu arni.

O ganlyniad, bydd angen i ni newid y Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd, i sicrhau ei fod wedi'i ddiweddaru ac yn gywir.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac wedi cael ei ddiweddaru. Y tro diwethaf i ni ddiweddaru'r polisi hwn oedd 10 Mai 2018.

14 Amdanom Ni

Prifysgol Abertawe, sefydliad a sylfaenwyd trwy Siarter Brenhinol, o Barc Singleton, Abertawe, SA2 8PP

Mae Gwasanaethau Digwyddiadau yn adran ym Mhrifysgol Abertawe ac nid yw'n endid cyfreithiol ar wahân.

Ni yw rheolydd data yr wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni. Mae'r term "rheolydd data" yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r unigolyn neu'r endid sy'n rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

15 I Ble Fedr wch Fynd am Fwy o Wybodaeth am eich Hawliau neu i Gwyno

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) y rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y Deyrnas Unedig. Mae modd cael hyd i lawer o wybodaeth ar ei gwefan ac mae'n sicrhau bod manylion cofrestredig pob rheolydd data fel ni ar gael i'r cyhoedd. Gallwch fynd ati trwy ddilyn y ddolen hon http://www.ico.gov.uk/for_the_public.aspx.

Gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg am y ffordd yr ydym wedi defnyddio'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, gobeithiwn y byddech yn ystyried codi unrhyw fater neu gŵyn sydd gennych gyda ni yn y lle cyntaf. Gwnawn ein gorau glas bob tro i geisio datrys unrhyw broblemau sydd gennych.

16 Cysylltwch â ni

Mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg i drafod eich gwybodaeth.

Ms Melissa Ferreira
Rheolwr Gwasanaethau Digwyddiadau
Ystafell y Castell, 2^{il} Lawr, Tŷ Fulton
Prifysgol Abertawe (Campws Parc Singleton)
SA2 8PP
E-bost: events@swansea.ac.uk